

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Amy Dredge
(Rhif Ffôn: 01443 863100 Ebst: dredga@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Ionawr 2018

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod **Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes** yn cael ei gynnal yn **Ystafell Sirhywi, Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Mawrth, 9fed Ionawr, 2018** am **5.30 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais.

Yr eiddoch yn gywir,

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

A G E N D A

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cyngorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngorwyr a Swyddogion.

A greener place Man gwyrddach



I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

- | | | |
|---|---|---------|
| 3 | Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes a gynhaliwyd ar y 7fed Tachwedd 2017. | 1 - 10 |
| 4 | Pwyllgor Craffu Arbennig Addysg Gydol Oes a gynhaliwyd ar y 7fed Rhagfyr 2017. | 11 - 16 |
| 5 | Ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor hwn yn unol â'r drefn galw i mewn. | |
| 6 | I dderbyn adroddiad llafar gan yr Aelod(au) Cabinet. | |
| 7 | Rhaglen Waith y Dyfodol Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes. | 17 - 28 |
| 8 | I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau* Cabinet canlynol:- | |

Cynllun 3 Blynedd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020

** Os oes aelod o'r Pwyllgor Craffu yn dymuno i unrhyw un o'r adroddiadau Cabinet uchod i gael eu dwyn ymlaen ar gyfer adolygiad yn y cyfarfod, cysylltwch â Amy Dredge, 01443 863100, erbyn 10.00 a.m. ar **ddydd Llun**, 8fed Ionawr 2018.*

I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau Craffu canlynol:-

- | | | |
|----|--|---------|
| 9 | Blaenoriaethau'r Iau a'r Fforwm Ieuenctid. | 29 - 32 |
| 10 | Model Ymddygiad a Darpariaeth Caerffili. | 33 - 36 |
| 11 | Gwella Presenoldeb mewn Ysgolion. | 37 - 42 |
| 12 | Gwybodaeth am Ganllawiau Diwygiedig ar Gyfer Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol. | 43 - 48 |

Cylchrediad:

Cynghorwyr C. Andrews, J. Bevan, P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, W. David (Cadeirydd), A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, D. Havard, M.P. James, B. Miles, Mrs G.D. Oliver (Is Gadeirydd), Mrs T. Parry, J.E. Roberts, R. Saralis a R. Whiting

Aelodau Cyfetholedig:

Cynrychiolwyr Archesgobaeth ROC Caerdydd dros Addysg (gyda hawliau pleidleisio ar faterion addysgol)
Mr M. Western

Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (gyda hawliau pleidleisio ar faterion addysgol) Mr M Barry a Mr R Morgan

Cynrychiolwyr Cyrff Allanol (heb hawliau pleidleisio)
Mrs J. Havard (NUT) a Mrs P. Ireland (NUT)

Asiantaeth Llywodraethwyr Caerffili (heb hawliau pleidleisio)
Mr D Davies

A Swyddogion Priodol

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH
AR DDYDD MAWRTH, 7FED TACHWEDD 2017 AM 5.30PM.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd W. David – Cadeirydd
Y Cynghorydd G. Oliver – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs C. Andrews, J. Bevan, P.J. Bevan, S. Cook, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, D. Havard,
Mrs B. Miles, J.E. Roberts, R. Saralis a R. Whiting

Ar y cyd gyda:

P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd
Cynnar), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), E. Pryce (Prif Cynghorydd
Her) ac E. Sullivan (Swyddog Craffu Dros Dro).

Hefyd yn Bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili), Mr M. Barry a Mr
R. Morgan (Rhiant Lywodraethwyr), Mrs P.J. Ireland (Undeb Cenedlaethol yr Athrawon).

A:

Mr R. Pawar (Prifathro, Ysgol Gyfun Coed Duon)

CYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Keri Cole (Prif Swyddog Addysg) a'r Cynghorydd
Teresa Parry wedi dioddef profedigaeth dros y penwythnos a gofynwyd iddynt anfon
negeseuon o gydymdeimlad atynt ar ran y pwyllgor. Safodd yr aelodau am funud a dawelwch
fel marc o barch.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Paul Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion) a
Mr Ravi Pawar (Pennaeth, Ysgol Gyfun Coed Duon) i'w cyfarfod pwyllgor craffu cyntaf.

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A. Collis, D. Havard,
Mrs T. Parry a Mrs K. Cole (Prif Swyddog Addysg), Mrs S. Richards (Pennaeth Gwasanaeth
dros Addysg dros dro) a Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archegsobaethol Eglwys
Unionged Rwsia Caerdydd dros Addysg).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd A. Farina-Childs mewn perthynas â'r cyflwyniad gan Mr. R. Pawar (Pennaeth, Ysgol Gyfun Coed Duon) (Cofnod Rhif 9). Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

3. COFNODION - 26AIN MEDI 2017

Cadarnhaodd Mr R. Morgan (Rhiant-lywodraethwr), er ei fod yn cael ei nodi fel yn bresennol yn y cofnodion, yr oedd wedi ymddiheuro am golli'r cyfarfod. Yn amodol ar y newid uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo cofnodion y 26ain o Fedi 2017 fel cofnod cywir, a thrwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y newid uchod, y dylid cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 26ain Medi 2017 (cofnodion rhifau 1-12) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET

Cyfeiriodd y Cynghorydd P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad) at yr adroddiad a ddsbarthwyd yn flaenorol i'r Aelodau, a rhoddodd ddiweddariad llafar ar ei gweithgareddau portffolio dros y misoedd diwethaf.

Cydnabu'r Aelod Cabinet gais a dderbyniwyd gan y Cynghorydd R. Saralis am ragor o wybodaeth am y fenter Pontydd i Waith. Dywedodd, er nad oedd y manylion ganddi, y byddent yn cael eu hanfon ato ar ôl y cyfarfod.

O ran y Cynnig Gofal Plant, nodwyd bod, yn dilyn y peilot cychwynol yn ardal Dwyrain Canol y Cymoedd, y cynnig yn cael ei ehangu i ardaloedd Trinant, Rhisga a Chwm Aber, ardaloedd sy'n cwmpasu bron i ddwy ran o dair o'r fwrdeistref. Rhagwelwyd y byddai'r cynnig yn cael ei gynyddu ymhellach i ardal Caerffili i gyd o fis Ionawr 2018.

Darparwyd diweddariad am gyfarfod diweddar gyda Debbie Wilcox (CLILC) lle roedd trafodaethau wedi canolbwyntio ar y materion sy'n wynebu pob awdurdod lleol, gan gynnwys pwysau cyllidebol. Anfonir y safbwyntiau a fynegwyd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Pwysleisiwyd defnyddioldeb cyfarfodydd o'r fath gan ei fod wedi caniatáu i Aelodau Gweithredol ddeall materion cyffredin a rhannu arferion da. Esboniwyd y datblygiadau a wneir o ran cydweithio, herio a chynllunio ymyrraeth a sut mae prosesau gwella yn cael eu symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet hefyd at ei phresenoldeb yn y Gynhadledd Genedlaethol 'From Poverty to Prosperity' a gefnogir gan y Fforwm Ieuencid ac agor Ysgol Uwch Islwyn. Dywedodd y Cynghorydd Marsden am ymweliad monitro Llywodraeth Cymru i ganfod faint o ymrwymiad sydd gan Gaerffili i gyfranogiad plant a phobl ifanc. Barnwyd bod hyn yn ardderchog, daeth yr adroddiad dilynol i'r casgliad bod tystiolaeth gref i ddangos bod Caerffili yn bodloni'r gofynion fel y nodwyd yn y canllawiau statudol.

Yn olaf, diweddarodd yr Aelod Cabinet y pwyllgor ar ei chyfarfod diweddar gyda'r

Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch sut mae'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei hysbysebu.

Cadarnhaodd Sarah Mutch (Rheolwr y Blynnyddoedd Cynnar) fod ymgyrch gyhoeddusrwydd enfawr wedi digwydd drwy ysgolion, cyfryngau cymdeithasol, gwefan a phost uniongyrchol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet am ei hadroddiad.

6. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWD AT Y PWYLLGOR YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

7. RHAGLEN WAITH Y DYFODOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES

Cyflwynodd y Swyddog Craffu Dros Dro yr adroddiad a oedd yn amlinellu Rhaglen Waith y Dyfodol y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes drafft o fis Tachwedd 2017 hyd at fis Gorffennaf 2018.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y rhaglen waith a gwneud unrhyw newidiadau neu gynnig unrhyw eitemau ychwanegol i'w cynnwys ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd P. Bevan am adroddiad pellach ar leoli targedu rhanbarthol i ddychwelyd i'r pwyllgor hwn i'w hystyried a chytunodd i anfon e-bost at y Swyddog Craffu Dros Dro gyda'r manylion er mwyn symud ymlaen â'r cais.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith a atodir i'r adroddiad.

8. ADRODDIADAU'R CABINET

Ni chafodd adroddiadau'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

9. CYFLWYNIAD GAN RAVI PAWAR, PENNAETH, YSGOL GYFUN COED DUON

Datganodd y Cynghorydd A. Farina-Childs ddiddordeb personol fel Aelod o Lywodraethwyr Ysgol Gyfun Coed Duon, felly nid oedd yn ofynnol iddo adael y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Ravi Pawar (Pennaeth Ysgol Gyfun Coed Duon) i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Mr Pawar ei gyflwyniad a oedd yn dangos sut mae Ysgol Gyfun Coed Duon yn gosod ei thargedau drwy safbwynt tri disgybl a allai fynychu'r ysgol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at fwrdd canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ac eglurodd y rhesymeg y tu ôl i'r ffigyrau a nododd yr angen i wella canlyniadau o fewn y categori A*-G. Cadarnhaodd fod y dangosydd hwn yn nodweddiadol yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Nodwyd bod yr ysgol wedi gosod targedau byd-eang ar ddiwedd CA3 a CA4 ar gyfer disgyblion yn seiliedig ar gyfuniad o wybodaeth gan gynnwys Technegau Asesu Dosbarth, Profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd ac asesiadau athrawon CA2. Cafodd y targedau hyn eu gwirio gan yr ysgolion cynradd partner a'u cyfathrebu i'r holl ddisgyblion a rhieni mewn cyfarfodydd unigol a gynhaliwyd o fewn y mis cyntaf. Cafodd y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau hynny ei wirio 3 gwaith yn CA3 a 6 gwaith yn CA4 gyda chanlyniadau yn cael eu bwydo'n ôl i'r plentyn a'r rhieni.

Amlinellwyd Disgybl Enghreifftiol 1 - Morgan - ar gyfer Aelodau a chafodd ei gyrhaeddiad disgwylidig yn asesiad athro CA2 ei fanylu. Nodwyd bod sgoriau darllen Morgan yn agos at gyfartaledd cenedlaethol ond nid yn sicr, sgiliau rhesymu eto yn gyfartal ond byddai angen cymorth pellach ar y rhifedd sylfaenol. Wedi cael ei nodi, byddai ymyriadau addas yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion Morgan i'w helpu i gyflawni'r targedau a ragwelir. Yn y cyfnod hwn, yr arwyddion yw y byddai Morgan yn anelu at raddau C yn CA4 yn bennaf, ond gallai hyn newid i fod yn uwch gan ddibynnu ar gynnydd.

Roedd y darlun yn wahanol ar gyfer Disgybl Enghreifftiol 2 – Alex. Yn asesiad athro CA2, roedd sgoriau darllen yn gryf iawn ac yn llawer uwch na'r safon genedlaethol, roedd sgiliau rhifedd yn llawer uwch na'r cyfartaledd, ond byddai angen i sgiliau datrys problemau fod yn fwy sicr er mwyn cyrraedd y lefelau uchaf. Yn CA4, byddai Alex yn anelu at raddau A*/A yn bennaf, ond byddai angen monitro Mathemateg.

Byddai Disgybl Enghreifftiol 3 - Jamie - yn gofyn am ymyriadau gwahanol iawn fel disgybl AAA sydd angen cefnogaeth unigol i wella sgiliau sylfaenol. Byddai Jamie yn gwneud cynnydd arafach ac yn CA4 efallai y bydd angen cwricwlwm personol wedi'i gynllunio'n ofalus gyda chymysgedd o gymwysterau TGAU a'r rheini sydd ddim yn TGAU.

Crynhodd Mr Pawar y gwiriad cynnydd yn CA3 ar gyfer pob un o'r disgyblion enghreifftiol. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai llawer o asesiadau wedi'u cynnal drwy gydol y broses hon. Yn achos Morgan, roedd gwiriad cynnydd CA3 yn dangos meysydd o gryfderau a gwendidau, graddau ymdrech ac ymddygiad da a bod lefel 6 o fewn cyrraedd a gall gyrraedd graddau B a C.

Dangosodd gwiriad cynnydd Alex ddisgybl sy'n cyrraedd y nod ar gyfer lefel 7 ond hefyd wedi nodi nad oedd celf a thechnoleg yn gryfder a bod mathemateg yn parhau i fod yn broblem. Felly, byddai athrawon yn monitro'r sefyllfa hon yn ofalus.

Dangosodd gwiriad cynnydd Jamie ei gyrhaeddiad rhagamcanedig fel lefel 4 ar ddiwedd CA4 a fyddai'n gweld y disgybl yn cyflawni graddau E. Cafwyd tystiolaeth o gryfderau mewn celf a gwyddoniaeth.

Wedyn byddai'r disgyblion hyn yn cael asesiadau eraill i gasglu mwy o ddata i fonitro cynnydd a phriodoldeb unrhyw ymyriadau a gyflwynir. Yn ystod y cam hwn, byddai targedau'n cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru.

Yna, eglurwyd y set olaf o wiriadau cynnydd ar gyfer marciau FFIN disgyblion a nodwyd y byddai pob un yn cael eu rhannu'n dair rhan, byddai 1 yn golygu y byddai'r marc hwn yn sicr, a byddai 3 yn amlygu perygl na fyddai'r marc hwn efallai yn cael ei gyflawni heb waith ychwanegol. Felly, byddai marc D3 yn gofyn am ymyriadau cynlluniedig er mwyn cyrraedd y nod. Hysbyswyd yr aelodau ei fod yn werth cofio y byddai rhai o'r targedau a osodwyd yn uchelgeisiol.

Crynowyd gwiriad cynnydd marciau FFIN Morgan, Alex a Jamie a nodwyd ymyrraeth bosibl i sicrhau targedau. Nododd yr aelodau y cymysgedd o gymwysterau sydd ar gael ar gyfer Jamie a oedd yn fwy addas i'w ystod gallu, gan ganolbwyntio ar sgiliau bywyd a dewisiadau galwedigaethol.

Crynowyd y rhagfynegiadau terfynol ar gyfer pob un o'r disgyblion enghreifftiol yn erbyn eu marciau terfynol a nodwyd yn achos Alex, cyflawnodd B yn lle'r A sicr a ddisgwyliwyd. Byddai'r math hwn o ganlyniad yn sbarduno trafodaeth mewn perthynas â gosod targedau a gwerthuso gyda'r athro pwnc er mwyn darganfod yr hyn a ddigwyddodd.

Pwysleisiodd Mr Pawar effaith gadarnhaol o osod targedau ac asesu parhaus. Roedd hyn, ynghyd ag ymrwymiad staff, disgyblion a rhieni, yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran cyflawniad addysg.

I gloi, cyfeiriwyd yr Aelodau at ddatganiad cenhadaeth Ysgol Gyfun Coed Duon 'Ym mhob peth a wnawn, credwn fod pob disgybl yn bwysig. Rydym yn gwerthfawrogi pob disgybl am yr hyn y maent wedi ceisio'i gyflawni, yn ogystal ag am yr hyn y maent wedi'i gyflawni. Rydym yn gwerthfawrogi pawb yn gyfartal.'

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Pawar am ei gyflwyniad a croesawyd cwestiynau'r Aelodau.

Holodd yr Aelodau am lefel y gefnogaeth a ddarparwyd i'r ysgol gan yr Awdurdod Lleol a dywedwyd wrthynt fod gan Goed Duon Gynghorydd Her da iawn a chanmolwyd gweithredu'r system GCA ar gyfer cofnodi data a oedd wedi cael effaith gadarnhaol.

Gofynnwyd am eglurhad hefyd ar lefel cyfranogiad rhieni ac os cynhelir hyn am y tymor hir. Pwysleisiodd Mr Pawar bwysigrwydd cael rhieni'n cymryd rhan yn gynnar iawn gan eu bod wedyn yn tueddu i aros yn ymroddedig. Cadarnhaodd fod y rhieni yn ymddangos i ffafrio cyylltiadau un i un yn hytrach na sesiynau noson riant gyffredinol.

Mynegodd Aelod bryder y byddai gan y broses ddwys iawn hon oblygiadau cost i'r ysgol a dywedwyd wrthynt fod hyn yn rhan o ymagwedd strategol ac ethos yr ysgol gyfan. Cadarnhaodd Mr Pawar fod y dull hwn yn cael ei ail-wneud mewn llawer o ysgolion ar draws y fwrdeistref.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Pawar am ateb cwestiynau'r Aelodau mor drylwyr ac am gyflwyniad hynod o addysgiadol a phleserus.

10. CONSORTIA DE DDWYRAIN CYMRU – STRATEGAETH GOSOD TARGEDAU RHANBARTHOL – WEDI'I DIWEDDARU MEDI 2017

Cyflwynodd Mr Ed Pryce (Prif Ymgynghorydd Her) yr adroddiad a hysbysodd yr Aelodau o'r Strategaeth Gosod Targedau Rhanbarthol a gytunwyd a fyddai'n sicrhau ymagwedd gyson tuag at y lleoliad a chytuno ar dargedau ar draws y rhanbarth.

Cyfeiriwyd yr aelodau at adran 4.1.1 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar bwmpas a nodau'r strategaeth. O ran gosod targedau, cydnabuwyd bod targedau disgyblion unigol yn uchelgeisiol ac mae'n debygol na fydd pob disgybl yn cyflawni eu targedau, yn enwedig pan fo perfformiad yn seiliedig ar arholiadau allanol. Mae gan ysgolion, felly, y gallu i anwybyddu targedau cyfan a gyfrifir o dargedau disgyblion unigol. Mae hyn ar gael i bob ysgol ym mhob cyfnod allweddol.

Dangoswyd trosolwg o'r system gosod targedau GCA yn adran 4.1.5 a chadarnhaodd y Swyddog fod y system wedi derbyn llawer o adborth cadarnhaol o ran ei hwylustod.

Amlinellwyd gofynion Llywodraeth Cymru a chrynowyd y targedau ar gyfer pob un o'r cyfnodau allweddol yn adran 4.29 yr adroddiad. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r amserlenni a ddechreuodd ym mis Gorffennaf 2017 ac a ddaeth i ben gyda'r targedau wedi'u cwblhau a'u cytuno â Chyfarwyddwyr ALI ym mis Hydref 2017.

O ran arfer gorau wrth osod targedau, nodwyd mai ysgolion sy'n gosod nodau ar gyfer pob disgybl unigol ym mhob grŵp blwyddyn yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o fod yn uchelgeisiol a llwyddiannus wrth sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn.

Eglurwyd mai rôl y Cynghorydd Her yw cefnogi ysgolion wrth osod targedau heriol ond realistig. Byddai'r ystod o wybodaeth y byddent yn eu hystyried yn cynnwys hunan arfarniad yr ysgol, data hanesyddol, dilyniant a chymharol, sut y bydd yr ysgol yn monitro a yw disgyblion ar y trywydd iawn i gyrraedd y lefelau disgwylidig o gynnydd. Yna byddai'r Cynghorydd Her yn dod i farn am y targedau a'r blaenoriaethau gwella allweddol sydd eu hangen i'w cyflawni.

Yn olaf, cyfeiriodd Mr Pryce at adran 4.6 yr adroddiad a oedd yn manylu ar wybodaeth Cynnydd Tuag at y Targed a gyflwynir ar hyn o bryd i'r GCA yn dymhorol drwy'r system EASi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei adroddiad a wedyn cafwyd trafodaeth lawn.

Gofynnwyd am eglurhad pam nad oedd data ar ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau bellach yn cael eu casglu. Cadarnhaodd Mr Pryce fod Llywodraeth Cymru wedi newid y gofyniad hwn gan fod llai nag 1% o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau, fodd bynnag, byddai'r awdurdod yn ymwybodol o'r plant hyn.

Gofynnodd yr Aelodau am gywirdeb y canlyniadau yn erbyn targedau a ragwelwyd, ac fe'u cynghorwyd y byddai nifer o'r targedau a osodir yn uchelgeisiol, felly byddai lefel o anghywirdeb, yn enwedig ar lefel ysgol uwchradd. Cydnabu Mr Pryce y byddai'r newidiadau diweddar i arholiadau yn arwain at lefel uwch o anghywirdeb, o bosibl rhwng 5 a 10%, ond byddai hyn yn duedd genedlaethol.

Mewn perthynas â gosod targedau, holodd yr Aelodau beth fyddai'n digwydd pe bai ysgol yn gwrthod newid targed os yw'n rhy isel neu os yw targed yn cael ei golli. Cadarnhaodd y Swyddog fod gan yr awdurdod y pŵer i osod targed ond byddai'r Cynghorydd Her yn gweithio'n agos gydag ysgol o amgylch hyn i geisio dod o hyd i ffordd ymlaen. Os bydd targed yn cael ei golli, byddai hyn yn cael ei reoli drwy'r broses Gostyngiadau Sydyn Annisgwyl a byddai gwaith yn cael ei wneud gyda'r ysgolion a'u llywodraethwyr i geisio canfod yr achos ac i gynllunio yn unol â hynny.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

10. ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF (ADDC)

Cyflwynodd Mr Paul Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella) yr adroddiad a roddodd wybod i'r Aelodau am y gwaith a wneir i fonitro a thracio disgyblion y mae eu rhieni'n dewis eu haddysgu yn y cartref.

Cadarnhaodd y Swyddog fod hwn yn faes heriol iawn gan fod cyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod gan rieni'r hawl i ddewis ond hefyd angen sicrhau darpariaeth addas ar gyfer y plentyn. Esboniwyd y gwahaniaeth rhwng ADdC a'r hyfforddiant cartref a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol. Nodwyd bod hawliau'r rhiant i ddewis addysg gartref yn cael eu gwarantu yn gyfreithiol dan Adran 7 Deddf Addysg 1996 a hefyd gan Erthygl 2 o Brotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol weithio o fewn cyfyngiadau'r gyfraith.

Fodd bynnag, mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas, y diffiniad o 'ddarpariaeth addas' yw'r hyn sy'n darparu addysg amser llawn effeithlon sy'n

addas i oed, gallu a dawn i unrhyw anghenion addysgol arbennig. Nid oes sôn am gwricwlwm.

Sicrhawyd yr Aelodau bod gan Gaerffili brosesau cadarn ar waith i fonitro a herio penderfyniadau ADdC lle bo angen a bod polisi clir yn ei le sy'n darparu'r fframwaith y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo.

Cafodd y rhesymau amrywiol dros dewis addysg yn y cartref eu crynhoi a nodwyd eu bod yn cynnwys rhesymau meddygol, ymddygiadol, bwlio ac, yn bennaf, gredoau athronyddol y rhieni.

Ar ôl derbyn hysbysiadau ysgrifenedig gan rieni, rhaid i ysgolion hysbysu'r Awdurdod Lleol ar unwaith. Anfonir yr hysbysiad hwn at Reolwr Gwasanaeth ar gyfer AHY, y Swyddog Lles Addysg, y Swyddog Cyswllt, y Tîm Derbyn, y Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r tîm AAA i wneud y gwiriadau perthnasol. Bydd y Swyddog Lles Addysg yn gweithio gyda theuluoedd ond mae gan deuluoedd yr hawl i wrthod ymyrraeth gan yr Awdurdod Lleol. Os canfyddir pryderon diogelu ehangach, gwneir atgyfeiriad uniongyrchol a bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn penderfynu a yw'r penderfyniad ar gyfer ADdC i gael ei herio.

Os yw'r Awdurdod Lleol o'r farn nad yw addysg addas yn cael ei ddarparu yna bydd adroddiad ysgrifenedig ar y canfyddiadau yn cael ei wneud a rhoddir cyfle rhesymol i'r rhieni fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd. Os bydd hyn yn methu, yna gellir rhoi rhybudd ffurfiol neu Orchymyn Mynychu'r Ysgol (GMY) i rieni. Nodwyd nad oedd angen i Gaerffili ddefnyddio GMY hyd yn hyn. Esboniwyd y broses ymweld a phwysleisiwyd pwysigrwydd o'r rhieni'n rhwydweithio â'u gilydd. Hysbyswyd yr aelodau bod posibilrwydd na fyddai rhai plant byth wedi cofrestru yn yr ysgol, ac er mwyn ceisio dal y data hwn, byddai angen gwneud gwaith i gymharu'r gofrestr enedigaethau byw gyda rhifau cofrestru ysgol. Mae'r darn hwn o waith yn cael ei ystyried ar y cyd ag Awdurdodau eraill ond mae yng nghyfnod cynnar iawn.

Hysbyswyd yr aelodau bod 76 o ddisgyblion ADdC ar hyn o bryd, a 2 ohonynt gydag AAA. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu dros amser ac mae hyn yn unol â ffigurau cenedlaethol.

Cadarnhaodd y Swyddog fod CBSC yn rhan o weithgor rhanddeiliaid yn edrych ar arweiniad pellach ar Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei adroddiad ac aeth trafodaeth lawn ymlaen.

Cydnabu'r Aelodau yr anhawster sy'n wynebu Swyddogion o ran ymgysylltu â rhieni a ddewisodd addysg yn y cartref. Gofynnwyd am eglurhad ar unrhyw gymorth a roddir i rieni megis pecynnau gwaith neu gymhorthion addysgu. Cadarnhaodd y Swyddog fod yr Athro Arbenigol yn cwrdd â theuluoedd yn flynyddol, o leiaf, ond gallant ofyn am fwy o ymweliadau, a byddent yn awgrymu bod rhwydweithiau ac adnoddau ar gael.

Gofynnodd Aelod sut mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau diogelwch plant o ran tiwtoriaid a gyflogir gan rieni, ac am y mater hwnnw, a diogelwch tiwtoriaid sy'n mynd i mewn i gartrefi. Sicrhaodd Mr Warren yr Aelodau bod rhieni yn cael eu hargymell i wirio unrhyw diwtor gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac fel arfer nodwyd unrhyw bryderon diogelu yn ymwneud â'r teulu yn gynnar, cyn i'r Athro Arbenigol fynd i'r cartref.

Gofynnwyd am eglurhad ar pam mae cynnydd yn niferoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref. Cadarnhaodd Mr Warren fod hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gyda chymorth system 'STRIVE'. Mae proffiliau plant yn cael eu dadansoddi er mwyn helpu i ddadbennu pam mae rhieni'n dewis y llwybr hwn ond eto mae hyn yng nghyfnod cynnar iawn. Nodwyd bod y feddalwedd hon yn arwain y ffordd ac wedi ei sefydlu fel model o arfer da.

Gofynnodd yr Aelodau a yw rhieni'n gallu dewis i ddefnyddio'r system addysgol neu beidio yn ôl eu hewyllys. Cadarnhaodd y Swyddog y gallai hyn ddigwydd a gallai fod yn dibynnu'n fawr ar amgylchiadau ond byddai'n rhaid cadarnhau dewis rhieni.

Gofynnwyd am eglurhad a oedd unrhyw blant yn dychwelyd i addysg brif ffrwd a dywedwyd wrthynt fod hyn yn brin iawn ac fel arfer dim ond ar y lefel uwchradd.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad hwn a gofynnwyd i gopi o'r polisi gael ei ddsbarthu i'r pwyllgor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

11. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2017-2020

Cyflwynodd Ms Sarah Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar) yr adroddiad a gyflwynodd gynllun drafft Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Caerffili (CSGA) 2017-2020 a gofynnodd am gymeradwyaeth yr Aelodau cyn ei argymhelliad i'r Cabinet.

Eglurwyd bod CSGA yn cyflawni dyletswydd yr Awdurdod Lleol i fonitro a gwella safonau'r Gymraeg, cyrhaeddiad addysgol ac yn cyfarwyddo'r defnydd briodol o arian Grant Addysg Gymraeg.

Mae'r CSGA yn dibynnu ar arian Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen y Prif Weinidog sy'n gweithio tuag at filiwn o bobl yn siarad yr Iaith Gymraeg erbyn 2050. Hysbyswyd yr aelodau Bod Llywodraeth Cymru wedi codi nifer o gwestiynau fel rhan o'r broses ymgynghori a rhoddwyd sylw iddynt o fewn y ddogfen ddrafft.

Cyfeiriwyd at y ddarpariaeth cyn ysgol a'r ffordd y gwnaeth y CSGA edrych yn benodol ar y blynyddoedd cynnar. Gwnaed gwelliannau mewn perthynas â gofal plant er mwyn dod â'r ddogfen yn unol â'r Cynnig Gofal Plant newydd sy'n cael ei ddatblygu ledled Cymru. Yr angen i sicrhau bod digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio fyddai'r sialens yn y dyfodol.

Cafodd y cysylltiadau â chynigion Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif eu crynhoi a'r heriau y byddai hyn yn eu cyflwyno yn y tymor hir. Rhan o'r cynigion hyn fyddai nodi'r galw ar draws y fwrdeistref a chysylltu datblygiadau yn y dyfodol yn gyfannol gyda chyllid gofal plant er mwyn sicrhau cadw cyfleusterau.

Roedd yr angen i wella cyfraddau trosglwyddo o feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg i ysgolion cynradd hefyd yn rhan o'r CSGA diwygiedig ac mae'n un o'r meysydd allweddol i'w datblygu gan Grŵp Gorchwyl rhanbarthol y Blynyddoedd Cynnar. Amlygwyd hefyd gyfleoedd ôl-16 cyfrwng Cymraeg gan Lywodraeth Cymru a esboniodd y Swyddog y cysylltiadau cydweithredol rhwng Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Choleg y Cymoedd a bod gwybodaeth ychwanegol wedi'i ychwanegu o Goleg y Cymoedd ar gyfer y flwyddyn academaidd hon i ehangu'r ystod o fodiwlau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

I gloi, cadarnhaodd Ms Mutch y byddai'r dull rhanbarthol o ddarpariaeth Dechrau'n Deg integredig CSGA, neu Gylchoedd Meithrin, gyda'u hysgolion cynradd lleol a clystyru darpariaeth ysgolion cynradd gyda'r ysgol uwchradd yn ogystal â chysylltu â'r sector gwirfoddol drwy Fudiad Meithrin, Menter yr Iaith ac Urdd Gobaith Cymru yn helpu i integreiddio'r ddarpariaeth a gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei hadroddiad ac aeth trafodaeth lawn ymlaen.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r Nodau Llesiant, yn benodol sut y byddai'r CSGA yn cyfrannu at Gymru fwy ffyniannus. Cadarnhaodd y Swyddog fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yn yr amgylchedd gofal plant, yn faes twf, yn ogystal â darparu

cefnogaeth, cyfieithu a dealltwriaeth o'r Gymraeg. Felly byddai mwy o gyfleoedd gwaith a rhagolygon swyddi gwell a gynhyrchir drwy ddarparu CSGA yn arwain at Gymru fwy ffyniannus.

Gofynnodd Aelod am gynigion Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac a fyddai arian ar gael mewn ardaloedd lle mae wir angen y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cadarnhaodd y Swyddog fod rhestr hir o gynigion o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y byddai'r Aelodau'n eu hystyried yn fuan, a byddai'r rhestr hon yn cynnwys nifer o flaenoriaethau gan gynnwys darpariaeth Gymraeg. O ran arian ychwanegol, nid oedd unrhyw fanylebau ar hyn o bryd, ond rhagwelir y byddai hyn yn ymwneud â ehangu manau sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na darpariaeth newydd sbon.

Mynegwyd pryderon bod angen ail-ddychmygu'r weledigaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg er mwyn creu meddylfryd gwell a rhaid iddi ganolbwyntio'n fwy ar ddefnydd ymarferol i sicrhau bod perchnogaeth yr iaith yn nhermau perthyn a gwerth yn hytrach na grantiau ac arian a rhaid iddi gymryd camau mwy cadarnhaol.

Cytunodd y Swyddog a nododd fod rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn aml yn lleisio amheuan am gofrestru plant mewn addysg cyfrwng Gymraeg oherwydd hyn. Yn aml, nid oedd y rhieni hyn yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r cymorth sydd ar gael i ddysgu Cymraeg. Crynhowyd yr ymdrechion a wnaethpwyd i annog pobl i gymryd rhan yn yr iaith a chytunwyd na all y cyfrifoldeb am gael un miliwn o siaradwyr ddisgyn ar addysg Gymraeg yn unig ond gyda chynnydd cyffredinol yn hyder yn yr iaith.

Gofynnwyd am eglurhad ar natur y Grŵp Gorchwyl Rhanbarthol. Hysbyswyd yr aelodau fod y Grŵp yn rhannu arferion da ac yn gweithio i gysylltu darpariaeth ar sail ranbarthol. Roedd y Grŵp hefyd yn cefnogi cyflwyno cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddarpariaeth addysg arall yn y Gymraeg, er enghraifft AAA.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ateb cwestiynau'r Aelodau mor drylwyr ac am ei hadroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

ARGYMHELLWYD bod: -

- (i) drafft terfynol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 yn cael ei nodi:
- (ii) y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20.

Terfynwyd y cyfarfod am 19.55 p.m.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed Ionawr 2018 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

CADEIRYDD

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES ARBENNIG

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH
AR DDYDD IAU, 7FED RHAGFYR 2017 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cyngorwydd W. David – Cadeirydd

Cynghorwyr:

A. Collis, S. Cook, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, D. Havard, M.P. James, Mrs B. Miles, Mrs T. Parry, R. Whiting

Aelod Cabinet:

P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad).

Aelodau Cyfetholedig:

Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili), Mrs J. Havard (NUT), Mr R. Morgan (Rhiant Lywodraethwr)

Ar y cyd gyda:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), S. Richards (Pennaeth Cynllunio, Strategaeth ac Adnoddau Dros Dro), S. Ellis (Arweinydd ar gyfer Cynhwysiant ac ADY), G.H. Evans (Uwch Reolwr Llyfrgelloedd), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid - Addysg a Dysgu Gydol Oes ac Ysgolion), L. Thomas (Uwch Reolwr Llyfrgelloedd Dros Dro), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro) a R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs C. Andrews, J. Bevan, PJ Bevan, Mrs GD Oliver, JE Roberts, a R. Saralis, ynghyd â Mr M. Barry (Rhiant Lywodraethwr) a Mr M. Western (Archesgobaeth ROC Caerdydd).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

3. CYNIGION CYLLIDEB DRAFFT AR GYFER 2018/19

Rhoddodd yr adroddiad fanylion y cynigion cyllideb drafft a chynigion arbedion drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 i'r Cabinet ar 15fed Tachwedd 2017 er mwyn caniatáu am gyfnod o ymgynghori cyn gwneud penderfyniad terfynol ym mis Chwefror 2018.

Nododd yr Aelodau y prif faterion yn Setliad Ariannol Llywodraeth Leol LIC Dros Dro 2018/19 a manylion y cynigion cyllideb drafft ar gyfer 2018/19. Roedd yr adroddiad yn manylu ar Brisiau Cost yr Awdurdod Cyfan (£8.867m), ynghyd â Phwysau Gwasanaeth Anadferadwy ac Ymrwymadau Gwasanaeth Eraill (£2.310m) a gostyngiad o 1% yng Ngyllid Llywodraeth Cymru sy'n cyfateb i £2.965m ar gyfer 2018/19. Yn ogystal, amlinellodd yr adroddiad y Cynigion Arbedion Drafft ar gyfer 2018/19 (-£7.205m) a'r Ymgodiad mewn Treth y Cyngor o 4.52% (£2.999m -), a fydd yn sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gyflawni ar gyfer 2018/19. Mae'r cynigion cyllideb drafft yn honni nad oes tyfiant ar gyfer ysgolion yn 2018/19. Nid oes unrhyw ofyniad yn y Setliad Dros Dro i amddiffyn Ysgolion ac felly bydd yn ofynnol iddynt reoli eu cynnydd chwyddiant cyflogau a di-dâl eu hunain yn 2018/19, ynghyd â phwysau costau eraill sy'n dod i'r amlwg.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r pwysau ariannol a roddwyd ar feysydd gwasanaeth, yn enwedig y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn codi o gynnydd mewn ffioedd ar gyfer darparwyr gofal allanol a galw pellach yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. O ganlyniad, roedd yr adroddiad yn cynnig dyrannu £1.5 miliwn pellach yng nghyllideb 2018/19 i fodloni'r pwysau ariannol parhaus hyn. Cyfeiriwyd yr aelodau hefyd at atodiadau'r adroddiad a oedd yn crynhoi'r cynigion arbedion gan y Gyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth, ynghyd â'r cynigion arbedion sy'n debygol o gael effaith ar y cyhoedd. Mae £4.682m o'r arbedion arfaethedig o £7.205m yn 'ddim effaith', yn cynnwys rheoli swyddi gwag, adlinio cyllideb a mân newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth.

Atgoffwyd yr Aelodau o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2017, a oedd yn dangos bod angen arbedion o £22.161m ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2019/20 i 2021/22, a rhagdybio bod sefyllfa fflat yn arian o ran Setliad Ariannol Cymru ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hyn. Bellach mae LIC wedi darparu gostyngiad dangosol ar gyfer Cymru gyfan yng Nghyllid Allanol Agregau o lai o 1.5% ar gyfer 2019/20, a fyddai'n cynyddu £3.984miliwn pellach ar ofyniad arbedion y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn unig. Os fydd hyn yn cael ei ailadrodd yn 2020/21 a 2021/22 wedyn bydd angen arbedion pellach o £7.789m. Byddai hyn yn arwain at ofyniad arbedion o tua £34miliwn ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2019/20 i 2021/22 ac yn cyflwyno heriau pellach yn symud ymlaen o ran Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod.

Esboniwyd y byddai'r gostyngiad dangosol o 1.5% yn cael ei adolygu gan LIC yn dilyn Datganiad Cyllideb yr Hydref y Canghellor a'r Setliad Ariannol Llywodraeth Leol 2018/19 sydd i'w gyhoeddi ar 20fed Rhagfyr 2017, a all gynnwys ffigwr dangosol diwygiedig ar gyfer 2019/20. Cyflwynir Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi ei diweddarau ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2022/23 i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Chwefror 2018.

Gwahoddwyd y Pwyllgor Craffu i ystyried a chynnig sylwadau ar y Cynigion Arbedion Drafft ar gyfer 2018/19.

Cyfeiriodd Aelod at y cynnydd o 1.8% (£1.973miliwn) yn y Cyllid Allanol Agregedig fel y manylwyd yn yr adroddiad a holodd sut roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad ariannol net o 1% (£2.965miliwn) o'i gymharu â 2017/18. Rhoddodd y Swyddogion esboniad pellach o sut y

mae'r trosglwyddo o ran grantiau penodol a chyfrifoldebau newydd a newidiadau i grantiau pasbort eraill wedi arwain at y gostyngiad ariannol cyffredinol hwn.

Mewn ymateb i drafodaeth ynglyn â'r Ymgodiad Treth y Cyngor arfaethedig o 4.52%, eglurodd y Swyddogion fod pob 1% yn gyfystyr â gwerth o thua £0.5miliwn ac os fyddai Aelodau o blaid lleihau lefel yr ymgodiad arfaethedig, byddai hyn yn arwain at yr Awdurdod yn gorfod dod o hyd i arbedion o £0.5miliwn ychwanegol mewn manau eraill am bob gostyngiad o 1%.

Gofynnwyd am eglurhad ar fanylion yr adolygiad Menter Cyllid Preifat (PFI) a gynhwyswyd yn ymrwymiadau/pwysau gwasanaeth annirweddoladwy2018/19 a'r diffyg disgwylidig o £22miliwn ar gyfer Cronfa Syrthio PFI Ysgolion. Esboniodd swyddogion fod yr adolygiad hwn yn parhau ac ar ei gasgliad bydd adroddiad manwl yn cael ei baratoi yn cadarnhau'r rhesymau penodol dros y diffyg a ragwelir. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, eglurwyd bod y £22miliwn yn ffigur cronnus ar gyfer bywyd sy'n weddill y contractau PFI. Cafwyd ymholiad hefyd ynghylch y newidiadau yn y proffil taliadau ar gyfer Cronfa PFI Ysgolion sy'n Cwmpo , a arweiniodd at y diddordeb rhagamcanol ar falansau oedd oddeutu £7.1miliwn yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.Esboniodd swyddogion fod y newidiadau i'r proffil taliadau yn adlewyrchu taliadau gwirioneddol a wnaed hyd yn hyn yn erbyn y rhai a ragwelwyd ar y dechrau. Mae hyn wedi arwain at falansau sy'n is nag a ragwelir yn wreiddiol sydd wedi effeithio ar incwm buddsoddi.

Cadarnhawyd y byddai cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Arbennig, gan ymgorffori barn a sylwadau'r Aelodau ar y cynigion cyllideb drafft, ynghlwm wrth adroddiad terfynol cyllideb 2018/19 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Chwefror 2018. Hefyd, dywedwyd wrth yr Aelodau bod Seminar Aelodau yn y broses o gael eu trefnu ar gyfer Ionawr 2018 i alluogi'r holl Aelodau i gael eu briffio ar Setliad Ariannol Llywodraeth Leol Terfynol 2018/19 ac i roi cyfle pellach i fynegi barn a'i rannu ac i godi cwestiynau.

